Rhai o'r Cerddi Buddugol – Eisteddfod Llanfihangel-ar-Arth 2007

Telyneg

Aber

Mae ennyd rhwng heddiw a fory
Nad oes modd ei hosgoi,
Un amrantiad mewn llif anochel
Nad yw'n bosib ei droi.

O'r tarddle yn nwfn y gorffennol,
Didostur yw y daith,
Nid oes ymatal na myfyrio,
Nac ymresymu chwaith.

Ar ôl bwrlwm, yna arafu,
Daw eiliad croesi'r ffin,
Ac ni thâl hi ddim i betruso,
Boed arw neu deg yr hin.

Wrth i ymchwydd y môr groesawu,
Cefnwn ar ffresni'r ddôl;
Wedi croesi terfyn yr aber,
Ni chawn ni deithio nôl.

Terwyn Thomas

Limrig (Limerick)

Pobol od sy'n byw yn Llaningel,
Sawl un yn ymddangos fel angel,
Ond tu ôl i'r sglein,
A'r siarad bach ffein,
Yn cwato mae tipyn o'r cythrel.

Esta Jones

Cerdd Rydd (Free Verse)
Haul

Prin yw'r haul yng Nghymru;
daethom i dderbyn y glaw, a'r niwl
yn llestair dyddiol,
sy'n lliniaru ffiniau
a chuddio'r ffordd ymlaen.

Gwelsom,
drwy'r cawodydd a'r caddug,
ddydd a nos yn toddi i'w gilydd,
a'r awyr yn dadmer y gorwel
i'r mwrllwch.

Ond, heddiw,
cawsom flasu'r haul
a diflannodd aneglurder ein gweld
i'r ffosydd
ar gyrion y llwybr sy'n ein cynnal.

Ond, gyda'r haul
daw cysgodion
i gydgerdded â ni.

Terwyn Thomas

Brawddeg (Sentence)

Peidiwn **E**sgeuluso **N**ewyn **C**anys **A**rnom
Daw **E**isiau **R**ywbryd.

Rachel Jones